# Atodiad 1:

# Dadfuddsoddi rhag tanwyddau ffosil

## <u>Ynglŷn â'ch syniad</u>

**Sut hoffech chi weld eich syniad yn gwneud cynnydd? ***

Trwy Gyngor Undeb y Myfyrwyr/y CCB.

**Teitl: Beth ydych chi am ei newid? ***

Dylai Undeb Myfyrwyr Aberystwyth annog Prifysgol Aberystwyth i ddadfuddsoddi rhag tanwyddau ffosil.

**Y ffeithiau: Beth yw'r sefyllfa bresennol? ***

Yn nhabl cynghrair diweddaraf *People and Planet*, daeth Prifysgol Aberystwyth yn 110fed allan o 150 yn y DU o ran cynaladwyedd. Hefyd cafodd sgôr o 0% am fuddsoddiad moesegol a dyma'r rhesymau:

- Mae Prifysgol Aberystwyth wedi buddsoddi £2,122,752 mewn tanwyddau ffosil (Ffynhonnell: *People and Planet*).

- Mae hefyd yn derbyn £377,496 o gyllid ymchwil o'r diwydiant tanwyddau ffosil ac nid yw'n rhoi dim cyllid tuag at ymchwilio i dechnolegau adnewyddadwy ers 2001. (Ffynhonnell: *People and Planet*).

- Ar hyn o bryd nid oes gan y brifysgol ymrwymiad i ddadfuddsoddi rhag tanwyddau ffosil.

Yn yr arolwg diweddar ar gynaladwyedd a gynhaliwyd ymysg staff a myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth, dwedodd 91% o'r ymatebwyr y dylai'r Brifysgol wneud mwy i leihau ei heffaith ar yr amgylchedd, a dwedodd 92% y dylai'r Brifysgol ddadfuddsoddi o danwydd ffosil.

**Barn y Bobl: Pam ydych chi am greu'r newid? ***

Os yw'r anghywir i ddinistrio'r amgylchedd, yna mae elwa o'r dinistr hwnnw'n anghywir. Mae gormod o brifysgolion y DU yn cefnogi'r diwydiant tanwydd ffosil yn uniongyrchol drwy eu hymchwil, eu gwaddolion a'u buddsoddiadau, yn ogystal â'u partneriaethau â rhai o'r cwmnïau tanwydd ffosil mwyaf yn y byd, megis BP a Shell. Rydym yn galw ar Brifysgol Aberystwyth i dorri pob cysylltiad â'r diwydiant tanwydd ffosil, sy'n gosod elw o flaen pobl.

**Y datrysiad: Sut ydych chi am greu'r newid? ***

Er mwyn mynd yn rhydd o ffosil, rydym yn annog Prifysgol Aberystwyth i wneud y canlynol:

1. Symud ei harian.

- Chwilio am ac allgau'r diwydiant tanwydd ffosil o bortffolio buddsoddiadau'r Brifysgol.

- Rhewi unwaith unrhyw fuddsoddiad newydd mewn cwmnïau tanwydd ffosil.

- Dadfuddsoddi o'r diwydiant tanwydd ffosil a throsglwyddo'r arian i fuddsoddiadau cadarnhaol, moesegol o fewn 5 mlynedd.

2. Cefnogi dyfodol ar gyfer ynni glân a swyddi gwyrdd.

- Rhoi cyngor a chyfleoedd gyrfaoedd moesegol i fyfyrwyr Aber

- Ail-ganolbwyntio ymchwil ac arbenigedd ar ddatrysiadau hinsawdd a dirwyn i ben yn raddol unrhyw ymchwil i danwyddau ffosil sy'n niweidio'r amgylchedd.

- Mynnu mwy o gyllido ar gyfer ynni adnewyddadwy gan gwmnïau tanwydd ffosil a'r llywodraeth.

3. Rhoi terfyn ar y ffug-wyrddio.


- Cyhoeddi manylion llawn unrhyw gysylltiadau ariannol â'r diwydiant tanwydd ffosil.

- Rhoi'r gorau i gyflwyno graddau er anrhydedd i Brif Weithredwyr y diwydiant tanwydd ffosil.


- Peidio â derbyn nawdd nac arian hysbysebu gan gwmnïau tanwydd ffosil.


Noder: Dyma ganlyniadau'r arolwg a gynhaliwyd gan Gymdeithas Gynaladwyedd Aberystwyth rhwng 7 a 9 Tachwedd mewn ymateb i'r Strategaeth Gynaladwyedd, a gyhoeddwyd gan grŵp SOG Prifysgol Aberystwyth. Teimlodd y Gymdeithas Gynaladwyedd nad oedd y Brifysgol yn gosod targedau realistig i fynd i'r afael â phryder cyfoes newid hinsawdd a'r defnydd helaeth o adnoddau; felly cafodd arolwg ei greu i asesu a deimlodd myfyrwyr yr un ffordd. Cawson dros 100 o ymatebion mewn 3 diwrnod. Dyma hefyd ein sylwadau a'n hawgrymiadau ychwanegol.


Arolwg gan Christopher Woodfield a Jennifer Hancock




https://chris1228.typeform.com/report/JCNTyJ/j71r






Sylwadau eraill:


-Bwyta cig (codi ymwybyddiaeth)
-Bwyd
-Gormod o argraffu papur
-Defnyddio ynni glân
-Gwahardd y defnydd o gwpanau untro
-Rhagor o adnodau addysgol
-Dwi ddim yn dweud ei bod yn wael am ailgylchu. Dwi ddim yn gwybod mewn gwirionedd. Ond mae angen i bawb wneud mwy ar y cyfan
-Mae'r Brifysgol yn dda iawn o ran cynaladwyedd
-Nid yw cynaladwyedd bwyd yn cael ei ystyried e.e. mae TamedDa yn ymfalchïo mewn gweini cig eidion i'r Brifysgol ond mae cynhyrchu cig eidion yn hynod o niweidiol i'r amgylchedd. Yn anaml iawn bydd opsiynau wedi'u cynhyrchu gan blanhigion neu opsiynau fegan ar y cownter bwyd poeth
-Paneli solar
-Mae'n debyg bod bioamrywiaeth yn yr ardal gyfagos yn gyfyngedig i fathau penodol o anifeiliaid; mae'r fioamrywiaeth, o safbwynt gweledol yn ymddangos yn weddol isel
-Teimlaf y dylai'r Brifysgol geisio adeiladu gan ddefnyddio llai o wastraff




Sylwadau eraill:


-Byddai ynni glanach yn dwyn budd i'r amgylchedd ac i iechyd myfyrwyr (llai o lygredd)
-Mae angen i'r Brifysgol nid yn unig ddadfuddsoddi, ond hefyd annog sefydliadau eraill i ddadfuddsoddi rhag tanwyddau ffosil hefyd
-Ynni adnewyddadwy yw'r unig ffordd ymlaen
-Efallai ddylen ni ddim dileu tanwyddau ffosil yn llwyr ond lleihau'r defnydd ohonynt
-Dwi'n teimlo fel eu bod yn gwestiwn delfrydyddol iawn. Byddai'r mwyafrif o bobl yn dweud y dylai'r Brifysgol ddadfuddsoddi rhag tanwyddau ffosil ond dwi ddim yn meddwl ei fod mor syml â hynny. Dwi'n meddwl y byddai gwybodaeth ar ymarferoldeb yn ddefnyddiol.
-Dwi'n credu y dylai fod yn flaenoriaeth.
-Mae'n hollbwysig fod prifysgolion yn symud at ynni adnewyddadwy. Os nad ydynt yn gosod esiampl, pwy arall ddylai?
-Byddai tanwyddau ffosil o hyd yn rhan o'n cyflenwad ynni am sbel. Ni fyddai gweithio gyda'r cwmnïau hynny i leihau eu heffaith yn y cyfnod hwnnw'n syniad gwael.
-Mae Aberystwyth i fod yn brifysgol gynaliadwy ac felly dylai'n sicr ddadfuddsoddi rhag tanwyddau ffosil... Dylai prifysgolion eraill ledled y wlad wneud yr un peth ynghylch yr argyfwng newid hinsawdd.
-Tyrbinau gwynt - mae'n wyntog iawn yma yn Aber!
-Dwi'n credu fod gan y Brifysgol gyfle unigryw gan ei bod mewn tref fach sydd â llawer o dir agored y gellid ei ddefnyddio nid yn unig at ddibenion y brifysgol ond hefyd y dref os bydd yn buddsoddi ynddo. Bydd hyn yn anodd ei gyflawni ond eto i gyd yn bosibl. Yn y dyfodol, bydd adenillion sicr o'r buddsoddiad hwn.
-Pa fath o gwestiwn yw hwnnw, dylai pawb fod yn gwneud hynny erbyn hyn!
-O ystyried bod Aberystwyth yn dref ar yr arfordir gyda thopograffeg ddeinamig, gellid creu ynni gwynt ar y môr ac ar dir uchel.
-Dylid bod posibilrwydd o fod â phaneli solar ym Mhrifysgol Aberystwyth; mae ongl y toeau'n ddelfrydol ar gyfer paneli solar (o leiaf rhai o'r adeiladau beth bynnag)
-Nid yw eu dileu'n llwyr yn realistig
-Buddsoddwch mewn ynni adnewyddadwy yn hytrach, yn enwedig prosiectau lleol (os ydynt yn bodoli, os na, dylid eu creu)
-Dylai hwn fod yn bryder hollbwysig i'r brifysgol. Fel canolfan addysg ac ymchwil, dylai fod yn esiampl i fusnesau a mudiadau eraill.


Which type of renewable energy would you like to see the University producing? (If you had to pick just one)
104 out of 105 people answered this question
1 Wind 32 / 31%
2 Solar electric - panels 31 / 30%
3 Biogas / AD - Energy from food/animal/farm waste 29 / 28%
4 Solar thermal - hot water 8 / 8%
5 None of the above 4 / 4%


Do you think the University should only source its energy (electricity and gas) from 100% renewable energy suppliers? (E.g. Good Energy and Ecotricity)
103 out of 105 people answered this question
1 Yes 78 / 76%
2 Not sure 16 / 16%
3 No 9 / 9%


What do you think the University should be focusing more on in terms of waste & recycling? (This applies to all types of waste)
104 out of 105 people answered this question
1 Reusing waste within the University 48 / 46%
2 Reducing waste that arises 31 / 30%
3 Recycling 24 / 23%
4 None of the above 1 / 1%



Do you think the University should introduce a ban on all single-use plastic cups?
105 out of 105 people answered this question
1 Yes 86 / 82%
2 No 11 / 10%
3 Not sure 8 / 8%


Do you think the University should introduce a deposit return scheme for plastic bottles and cans? (A deposit scheme is where the price of purchasing drinks in plastic bottles and cans increases by 10 / 20 pence for example, however once used you can return your bottles and cans at specific locations to gain your 10 / 20 pence back)
104 out of 105 people answered this question
1 Yes 93 / 89%
2 No 8 / 8%
3 Not sure 3 / 3%


What types of waste do you think the University should be focusing more on to reduce? (If you had to pick just one)
105 out of 105 people answered this question
1 Plastic 62 / 59%
2 Paper & Card 19 / 18%
3 Electronic 13 / 12%
4 Aluminium, cans 6 / 6%
5 Other 5 / 5%

Sylwadau eraill:

-Gwastraff bwyd
-Cardfwrdd
-Bwyd a deunydd bioddiraddadwy
-Deunydd nad oes modd ei ailgylchu a gwastraff bwyd
-Bwyd
-Gwastraff bwyd o allfeydd y Brifysgol a chyfleusterau er mwyn i neuaddau waredu gwastraff bwyd ac/neu finiau compost
-YN DDELFRYDOL, DYLID BOD MODD COMPOSTIO'R HOLL WASTRAFF. BYDDWN I'N DWLI AR WELD GWAHARDDIAD LLWYR AR BOTELI DŴR PLASTIG. DOES DIM DIGON O FFYNHONNAU DŴR
-Caiff plastig yn aml ei anwybyddu wrth ailgylchu, yng Ngheredigion mae modd ailgylchu bron pob plastig
-Papur a metelau
-Cyfrifiaduron yn gwneud synau drwy'r dydd heb unrhyw un yn yr ystafell
-Byddai'n dda cyflwyno mwy o ffynhonnau dŵr - fel bod angen i bobl brynu llai o boteli o ddiodydd. Byddai tâl ar boteli/cwpanau'n dda iawn
-Mae myfyrwyr yn wael am greu gwastraff. Byddai addysg ar ddeilliannau gwastraff a ffyrdd o'u lleihau'n ddefnyddiol.
-Mae Ffair y Glas Aberystwyth yn cynhyrchu llwyth o wastraff diangen. Mae'n sicr yn ddigwyddiad y gellid ei dargedu. Hefyd, gellid cyflwyno gwell cyllid i gymdeithasau sy'n defnyddio cynhyrchion sy'n gwastraffu llai ayyb.
-Mae'r Ysgol Fusnes yn gwneud yn dda o ran dileu taflenni papur hyd yma.
-Gwastraff bwyd hefyd.
-Mae'n debyg bod ailgylchu adnoddau eraill yn rhesymol eisoes (mae disgwyl i drydan fod) ond caiff alwminiwm (fel caniau) bron ei anwybyddu fel adnodd ailddefnyddiadwy.




Sylwadau eraill:

-Gwella'r cynnig bwyd llysieuol a fegan
-Yr holl bethau uchod
-Dylid bod mwy o opsiynau llysieuol a fegan gan fod eu heffaith carbon yn llawer is
-Rhagor o gynnyrch lleol, bydd yn gwella ansawdd y bwyd yn yr Undeb
-Byddwn i'n dwli ar allu bwyta cynnyrch gan fyfyrwyr/amaethyddwyr (os ydyn nhw hyd yn oed yn gwneud hynny)
-Mae prynu cynnyrch lleol hefyd yn rhan o fasnach deg gan ei fod yn dwyn budd i fasnach yr ardal leol ac yn
annog system economaidd decach




Sylwadau eraill:

-Diangen
-Mae'n edrych fel dechrau da
-Mae'n edrych yn fympwyol fel y mwyafrif o dargedau dwi'n tybio. Byddai'n braf cael gweld darlun cyffredinol o'r cynnydd o ran caffael gan gynnwys bargeinion da i gyflenwyr, cymorth i gynhyrchwyr lleol a llai o ynni'n cael ei ddefnyddio ar gyfer nwyddau. Llai o gig
-Dylai popeth fod mor lleol â phosib... mae bod yn lleol yn well na bod yn organig.
-Mae'n edrych yn rhesymol
-Dylai hyn fod yn uwch, ond dylid ystyried unrhyw gynnydd disgwyliedig yn drefnus ac yn raddol, yn hytrach na chynnydd sydyn (mae cynnydd sydyn yn y defnydd o fwyd lleol yn creu ei ddeilliannau ei hun felly gellid bod angen cynnydd graddol)
-Mae bron yn iawn
-Mae'r targed yn realistig ac mae modd ei ymestyn os oes angen
->50%
-Lleihau'r cig a'r cynnyrch llaeth sydd ar gynnig a gwella/codi nifer yr opsiynau llysieuol a fegan
-Rydyn ni'n byw mewn ardal lle mae modd cael cynnyrch lleol yn hawdd. Canolbwyntio ar gynnyrch organig o fwydydd sy'n dod o'r prosesau sy'n defnyddio'r mwyaf o blaladdwyr.
-Rhagor o gydweithredu gyda ffermydd preifat, noddwyr a chynhyrchwyr lleol!
-Mae'r diwydiant organig yn dipyn o jôc.... mae bwyd cynaliadwy yn llawer mwy cymhleth nag organig vs confensiynol.





Sylwadau eraill:

-Organig a masnach deg lle bo'n bosibl
-Ni ddylai hYn fod yn gwestiwn, dylen nhw fod yn ei wneud eisoes.
-Beth sy'n digwydd i'r bobl sy'n gweithio yn y slafdy heb unrhyw ecsbloetio? Bydd dim byd ganddynt o ganlyniad. Mae'r broblem yn llawer dyfnach na phrynu o slafdy.
-Does dim angen llafur slafdy i weithredu
-Mae holl enghreifftiau'r cynllun yn gweithio'n dda o fewn amgylchedd y Brifysgol ac, i mi, byddwn i'n fodlon â gweithredu unrhyw un o'r cynlluniau hyn.
-Does dim ffordd glir o weld o le mae'r dillad yn dod ar hyn o bryd
-Dylai'r brifysgol fel canolfan addysg ac ymchwil osod esiampl gadarnhaol o ran sut dylai mudiadau a busnesau eraill gaffael.






Sylwadau eraill:

-Gwell arwyddion ar gyfer y lotments a gwell cyhoeddusrwydd ar eu cyfer
-Byddai'n dda pe bai modd i'r brifysgol ddarparu lotments i fyfyrwyr unigol neu grwpiau o fyfyrwyr er mwyn iddynt dyfu bwyd i'w fwyta eu hunain
-RHAGOR O WRYCHOEDD AR GAEAU A THIR SY'N EIDDO'R BRIFYSGOL!
-Gormod o lawntiau! Mae dolydd blodau gwyllt yn hawdd i'w creu a'u cynnal. Rhagor o blanhigion a thai sy'n gyfeillgar â chacwn/pili-palaod.
-DIM DIGON O GYFRANOGIAD GAN FYFYRWYR
-Llai o feysydd parcio sy'n cymryd ardaloedd gwyrdd!
-Gwasgaru rhagor o flodau gwyllt. Os gwelwch yn dda
-Dylid bod mwy o ymwybyddiaeth
-Byddai'n braf bod â lotments i fyfyrwyr dyfu eu llysiau eu hunain.
-Dwi'n gwybod bod y lotment yno ond nid ei ddiben na'r rheiny sy'n gwirfoddoli yno. Hoffwn i weld rhagor o brosiectau cadwraeth yn digwydd ar dir y brifysgol.
-Rhagor o lecynnau ar gyfer blodau gwyllt a llai o lawntiau. Mae angen amser, arian, ymdrech ac (ar hyn o bryd) buddsoddiad mewn tanwyddau ffosil i'w cynnal a chadw, felly beth am ddatblygu ardaloedd gwyllt? (Dwi'n tybio bydd angen llai o ofal)
-Gormod o lawntiau diflas. Mae'n syniad cael cymysgedd o flodau gwyllt ar y llethrau serth rhwng Llandinam a Hugh Owen i wella cynefinoedd peillwyr. Gellid torri lawntiau eraill yn llai aml, gan wella'u budd i infertebratau a mamolion bach.
-Mae'r Brifysgol yn ganolfan addysg ac ymchwil ac felly dylai osod esiampl gadarnhaol o ran gwella bioamrywiaeth.